Trawsnewid gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin

Digwyddiad Gweminar: Dydd Mawrth 15 Mehefin 10.00-11.30yb

Ymunwch â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i archwilio canfyddiadau ei hymchwil i'r gwasanaethau a'r cymorth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, a'r ffyrdd y gallwn weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod pobl hŷn ledled Cymru yn gallu cael gafael ar y cymorth y gallai fod ei angen arnynt.

Fel rhan o'r digwyddiad, byddwn yn clywed gan oroeswr cam-drin domestig hŷn, a fydd yn rhannu ei phrofiadau o adael perthynas gamdriniol ac yn trafod yr anawsterau y mae hi'n eu hwynebu o ran dod o hyd i'r cymorth iawn a chael gafael arno.

Bydd siaradwyr arbenigol hefyd yn ymuno â'r Comisiynydd i edrych ar y mathau o wasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd, y materion a'r heriau penodol sy'n gallu atal pobl hŷn rhag cael cymorth a chefnogaeth, a'r arferion da sydd ar waith ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Bydd trafodaeth banel arbenigol ryngweithiol a sesiwn Holi ac Ateb yn dod â'r digwyddiad i ben, gan roi cyfle i gynadleddwyr ofyn cwestiynau a rhannu eu barn am y camau sydd angen eu cymryd i drawsnewid gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Siaradwyr

Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Nicole Jacobs, Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr

Aelodau'r Panel

Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru
Ann Williams, Rheolwr Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Cymorth i Fenywod Cymru
Rachael Nicholson, Cyfarwyddwr, Hourglass Cymru (Action on Elder Abuse Cymru o'r blaen)

I archebu eich lle yn y weminar, cofrestrwch yn:

https://tocyn.cymru/cy/event/992279cf-d9d6-44ae-b33b-59aad1e0c2a6

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales